

## Cyfleoedd Dydd

Mae ein canolfannau Cyfleoedd Dydd yn gyfle i'r bobl rydym yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau a phenderfynu pryd maen nhw'n dymuno cymryd rhan ynddyn nhw.

**Rydym yn credu y dylai pobl gydag anawsterau dysgu fyw bywyd i'r eithaf. Felly pob dydd rydym yn mynd ati i gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau a'u helpu i wneud penderfyniadau ynghylch lle a phryd y byddan nhw'n cymryd rhan yn y gweithgareddau.**

Mae Cyfleoedd Dydd, neu Wasanaethau Dydd fel mae rhai mudiadau yn cyfeirio at y gwasanaeth, yn elfen hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf Gofal ac Agenda Trawsnewid Gofal, yn enwedig ar gyfer pobl gydag anghenion dyrys ac ymddygiad heriol. Er mwyn 'rhoi grym i unigolion' a chynnig y 'gofal cywir yn y man cywir', mae angen inni wneud popeth posib i ofalu bod ein holl wasanaethau yn helpu pobl i fyw eu bywyd i'r eithaf a chyflawni popeth hyd eithaf eu gallu.

Mae ein timau staff medrus yn cefnogi pobl i ddod o hyd i ddiddordebau maen nhw'n eu mwynhau wrth osod a chyflawni nodau personol er mwyn mynd ati i reoli eu bywydau. Rydym yn cydnabod fod angen cefnogaeth ddwys ar rai pobl ond rydym yn dal yn gofalu fod modd iddyn nhw fanteisio ar gyfleoedd a gweithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae ein dull hyblyg yn fodd inni adnabod pobl gyda diddordebau tebyg sy'n gyfle i bobl rannu cefnogaeth a manteisio i'r eithaf ar eu cyllidebau unigol.



## Cymryd rhan

Rydym yn cydweithio'n agos gyda phobl i weld pa weithgareddau maen nhw'n dymuno cymryd rhan ynddyn nhw ac yna yn eu cefnogi i wneud hynny. Ymysg yr hyn rydym yn cefnogi'r bobl gyda nhw mae'r canlynol:

- **Mynd i weithio**
- **Gwirfoddoli**
- **Astudio**
- **Mwynhau gweithgareddau hamdden neu wyliau**
- **Gwneud ffrindiau a threulio amser gyda nhw**
- **Cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol / yn ymwneud â ffydd.**
- **Cefnogi pobl yn eu cymunedau**

Rydym yn cydweithio gyda phobl er mwyn canfod eu diddordebau a sgiliau yna awn ati i'w paru gyda'n staff. Mae hyn yn ddull sy'n helpu gofalu deilliannau gwych ar gyfer y bobl rydym yn eu cefnogi. Rydym hefyd yn datblygu ein gwasanaethau yn defnyddio gwahanol dulliau, y dibynnu ar yr hyn sy'n addas i'r ardal. Mewn rhai ardaloedd, rydym yn rheoli manau yng nghanol y gymuned, lle mae cyfle i bobl alw heibio pan maen nhw'n dymuno. Mewn manau eraill, rydym yn datblygu 'canolfannau cymunedol' lle'r ydym yn canolbwyntio ar weithgareddau penodol ac ymateb i anghenion trigolion yr ardal.

Lle'n bosib, rydym yn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol cyffredinol. Mae ein dull ar sail athroniaeth fod modd i bawb gyfrannu tuag at eu cymuned.